Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Stori Rhanddeiliaid Uwchgynadleddau Datblygu Cynaliadwy Cymru

Nodau Datblygu Cynaliadwy Uwchgynadleddau Rhanddeiliaid

"Diwrnod ysbrydoledig lle daeth pobl o'r un anian at ei gilydd i gynnal trafodaeth wych a chynhyrchiol am y gwaith mae Cymru'n ei wneud"

Ym mis Ionawr 2019 gwahoddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bobl i ymuno â nhw yng Nghynadleddau Nodau Datblygu Cynaliadwy Cymru i Randdeiliaid yn Llandudno a Chaerdydd.

Daeth 85 o bobl o'r sector cyhoeddus a phreifat, addysg uwch ac addysg bellach a chymdeithas sifil i weld a fedrwn ni ddwysáu ein hymdrechion dros ddatblygu cynaliadwy a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a sut y mae Cymru'n cyfrannu tuag at Agenda 2030 gyda'i nodau llesiant hi ei hunan.

Cynhyrchodd y ddau ddiwrnod syniadau cyffrous a diddorol a gafodd eu harneisio drwy frwdfrydedd pobl sy'n dymuno gweithio'n agosach gyda'i gilydd ac archwilio cyfleoedd a ddaeth yn sgil y cysylltiadau newydd a wnaethpwyd yn ystod y dydd.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn stori ryngweithiol o'r ddwy Uwchgynhadledd, lle gallwch gyrchu fideos a sleidiau o'r cyflwyniadau, crynodeb o'r prif faterion a chyfleoedd a nodwyd gan y cynrychiolwyr ar gyfer nodau Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r hyn y mae Cymdeithas Sifil, cyrff cyhoeddus a phreifat a phrifysgolion yn mynd i'w wneud nesaf.

Edrychwch ar rai o'r trafodaethau a gawsom yn ystod ein fideo o'r digwyddiadau:

View

Beth Yw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy?

Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030, a fabwysiadwyd gan bob un o Aelod-Wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig yn 2015 yn darparu glasbrint ar gyfer urddas, heddwch a ffyniant i bobl a'r blaned, yn awr ac yn y dyfodol.

Wrth ei wraidd mae'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy sy'n alwad brys ar bob gwlad i weithredu - gwledydd datblygedig a'r rhai sy'n datblygu - mewn partneriaeth fyd-eang. Maen nhw'n cydnabod bod yn rhaid i'r broses o ddileu tlodi a mathau eraill o amddifadedd fynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, yn lleihau anghydraddoldeb, ac yn sbarduno twf economaidd - a hyn i gyd tra'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gweithio i warchod ein moroedd a'n coedwigoedd.

Mae Agenda 2030 a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn heriol, ond ni chaiff plant a phobl ifanc Cymru unrhyw drafferth i ddeall pam mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'n bwysig ac yn berthnasol i'w dyfodol. Yn y ddau fideo hyn, mae disgyblion Ysgol Gynradd Millbrook ac Ysgol Treganna'n egluro beth yw Nodau Datblygu Cynaliadwy a pham mae angen i ni weithredu:

Fideo Millbrook | View

Fideo Ysgol Treganna | View

Beth Ydyn Ni'n Ei Wneud Yng Nghymru?

Mae gan Gymru hanes hir o hybu datblygu cynaliadwy fel cenedl ddatganoledig, a bydd yn cyfrannu tuag at lwyddiant yr 17 Nod Datblygu Cynaliadwy drwy ei hymdrechion ei hunan. Yn y flwyddyn pan gafodd y Nodau Datblygu Cynaliadwy eu mabwysiadau gan y Cenhedloedd Unedig, daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gytundeb ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith nod llesiant cysylltiedig ar gyfer Cymru.

Defnyddio'r ddeddfwriaeth i sbarduno gweithredu cadarnhaol ar ddatblygu cynaliadwy yw glasbrint Cymru ar gyfer lleoleiddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, a thra bo llawer o'r ymdrechion cychwynnol wedi ffocysu ar y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, mae gan Gymdeithas Sifil, Busnesau a'r sector cyhoeddus ehangach rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o weithredu Agenda 2030.



Sut Y Gwyddom Ein Bod Yn Gwneud Gwahaniaeth?

Ym mhensaernïaeth y Cenhedloedd Unedig mae Cymru, fel llawer o Lywodraethau eraill ledled y byd yn cael ei chydnabod fel llywodraeth is-genedlaethol, a gan hynny'n adrodd i'r Cenhedloedd Unedig ar y cynnydd yng Nghymru yn bennaf drwy Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol cyntaf y DG (VNR).

Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol

Mae Adolygiadau cenedlaethol gwirfoddol yn rhan o'r dilyniant a'r adolygiad o Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Bwriedir iddynt fod yn wirfoddol, i gael eu harwain gan y wladwriaeth, i'w gweithredu gan wledydd datblygedid a'r rhai sy'n datblygu, a rhoi llwyfan i bartneriaethau,yn cynnwys drwy gyfranogiad Prif Gwrpiau a rhanddeiliaid eraill.

Agenda Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Ar Y Nodau Datblygu Cynaliadwy

Caerdydd, dydd Mawrth 15fed Ionawr

Canolfan Addysgu Ôl-raddedigion Prifysgol Caerdydd

Croeso'r Cadeirydd	**Cat Jones** Pennaeth Partneriaeth Hub Cymru Africa
Anerchiad Agoriadol Dyfodol y Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru	**Susie Ventris-Field** Prif Weithredwr Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Nodau Datblygu Cynaliadwy ac Ymagwedd y DG tuag at yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol	**Laura Callaghan-Pace** Adran Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth y DG
Ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	**Amelia John** Dirprwy Gyfarwyddwr Y Dyfodol a Llunio Penderfyniadau Integredig Llywodraeth Cymru

Gweithdy 1

Gweithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru - beth fedrwn ni ei ddysgu o'n profiadau, llwyddiannau a heriau i helpu i gyflymu'r cyfraniad y gall Cymru ei wneud i weithrediad Agenda 2030

Gweithio mewn Partneriaeth â Chymdeithas Sifil - Nodau Datblygu ac Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol - Profiad yr Alban	**Paul Bradley** Cydlynydd Prosiect Llywodraeth Agored Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban
Sut fedr adrodd ar lesiant yng Nghymru gynorthwyo Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol	**Glyn Jones** Prif Ystadegydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad, Llywodraeth Cymru
Gweithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy	**Yr Athro Calvin Jones** Prifysgol Caerdydd

Gweithdy 2

Sut fedrwn ni fobileiddio cymorth llawer o randdeiliaid a phartneriaethau yng Nghymru i gryfhau'n dulliau o weithredu Agenda 2030 yng Nghymru

Anerchiad i gloi Glynu wrth y Llwybr Cywir tuag at 2030: Heriau a chamau gweithredu ar gyfer Cymdeithas Sifil a Llywodraeth yng Nghymru	**Sophie Howe** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Llandudno

Dydd Mawrth 22ain Ionawr

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Cyffordd Llandudno, Ystafell Rhos

Croeso'r Cadeirydd

Nina Ruddle
Pennaeth Ymgysylltu a Pholisi Cyhoeddus Prifysgol Glyndŵr

Anerchiad Agoriadol
Glynu wrth y Llwybr Cywir tuag at 2030: Heriau a chamau gweithredu ar gyfer Cymdeithas Sifil a Llywodraeth yng Nghymru (Ffrydio byw o Ysgol Gynradd Millbrook

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Amelia John
Dirprwy Gyfarwyddwr Y Dyfodol a Llunio Polisi Integredig, Llywodraeth Cymru

Nodau Datblygu Cynaliadwy ac Ymagwedd y DG tuag at yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol (fideo o Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Caerdydd)

Laura Callaghan-Pace
Adran Datblygu Rhyngwladol, Llywodraeth y DG

Gweithdy 1

Gweithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru - beth fedrwn ni ei ddysgu o'n profiadau, ein llwyddiannau a'n heriau i helpu i gyflymu'r Cyfraniad y gall Cymru ei wneud i weithredu Agenda 2030

Sut y gall adrodd ar lesiant yng Nghymru gynorthwyo'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol

Rachel Dolman
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Gweithio mewn Partneriaeth â Chymdeithas Sifil - Nodau Datblygu ac Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol - y Profiad Albanaidd (fideo o Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Caerdydd)

Paul Bradley
Cydlynydd Prosiect Llywodraeth Agored Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban

Gweithio mewn partneriaeth â Sefydlidau Addysg Uwch wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Dr Einir Young
Prifysgol Bangor

Gweithdy 2

Pa syniadau gallai symud y sgwrs a gweithrediad ymlaen tuag at gyflawni'r nodau?

Prif Anerchiad i gloi
Dyfodol Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

John Gallanders
Prif Swyddog Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam

Ken Perry
Do Well

Cyflwyniadau'r Uwchgynadleddau

Cadeiryddion

View

Cat Jones
Pennaeth Partneriaeth Hub Cymru Africa

Nina Ruddle
Pennaeth Ymgysylltu a Pholisi Cyhoeddus, Prifysgol Glyndŵr

Fel dwy gadeirydd ein digwyddiadau, roedd gan Cat Jones (oedd yn cadeirio'r digwyddiad yn ne Cymru) a Nina Ruddle (oedd yn cadeirio'r digwyddiad yng ngogledd Cymru) y dasg bwysig o osod y safon ar gyfer y diwrnod.

Amlinellodd y ddwy bwysigrwydd y nodau ac arwyddocâd pob un ohonynt, gan wneud yn glir ein bod yn gwybod pa mor uchelgeisiol yw'r nodau, ond y byddwn drwy eu cyflawni'n creu gwell Cymru a gwell byd i ni i gyd i fyw ynddo. Gwnaethant amlinelli'r agenda ar gyfer y ddau ddiwrnod, gan gyflwyno'r siaradwyr ac unrhyw drefniadau perthnasol. Yn bwysicaf oll, roedd y ddwy gadeirydd yn deall ac yn mynegi mai pwrpas y diwrnod oedd gwrando, dysgu a gadael gyda gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall Cymru ei gyfrannu i'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol a sut y gall y sgyrsiau hyn barhau i ddatblygu.

Cyflwyniadau'r Uwchgynadleddau

Dyfodol Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

View

Susie Ventris-Field
Prif Weithredwr, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Mae Susie'n gofyn y cwestiwn sut fedr Cymru, fel cenedl fach, wneud unrhyw gyfraniad o bwys i'r materion enfawr y mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy'n anelu at eu datrys? Mewn cyflwyniad sy'n dwyn sylw'r gynulleidfa Gymreig ar faterion yn ymwneud â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, mae Susie'n edrych ar storïau o'r gorffennol lle mae Cymru wedi gwneud cyfraniad unigryw ac arwyddocaol i rai o'r materion byd-eang a wynebir yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Nodau Datblygu Cynaliadwy ac Ymagwedd y DG tuag at yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol

View

Laura Callaghan-Pace
Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID), Llywodraeth y DG

Yr Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) sy'n arwain polisi Llywodraeth y DG ac sy'n gyfrifol am lunio'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol. Mae cyflwyniadau Laura'n disgrifio ymagwedd Llywodraethau'r DG tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy a sut y byddant yn creu'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol, yn cynnwys amserlenni a chyfleoedd ymgysylltu. Drwy ei holl gyflwyniad, gwnaethpwyd yn glir gan Laura bod y DG yn arwain y trafodaethau pan roedd y Cenhedloedd Unedig yn penderfynu ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac mae pwysigrwydd eu cyflawniad yn dal yn un o flaenoriaethau Llywodraeth y DG. Roedd Laura'n bositif am y gwahaniaethau rhwng Lloegr a Chymru, gan ddeall bod gennym y gallu i ddysgu, rhannu a thyfu gyda'n gilydd lle nad oes gennym bethau cyffredin.

Cyflwyniadau'r Uwchgynadleddau

Ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

View

Amelia John
Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol a Llunio Polisi Integredig, Llywodraeth Cymru

Roedd Amelia'n rhan o greu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) o'r cychwyn cyntaf ac yn ei chyflwyniad, mae'n disgrifio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yng nghyd-destun cenedl ddatganoledig. Eglurodd Amelia mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw ymateb a chyfraniad Cymru i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel y cawsant eu creu ochr yn ochr â'i gilydd. Amlinellodd yr ymagwedd a fabwysiedir gan Gymru tuag at yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol a sut y gellir ei defnyddio i ennyn ymgyfraniad pobl yn fwy effeithiol i ddeall ble rydyn ni yng Nghymru, beth sydd ar ôl i'w wneud a beth arall ellir ei wneud i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Gweithio mewn Partneriaeth â Chymdeithas Sifil – Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol – Profiad yr Alban

View

Paul Bradley
Cydlynydd Llywodraeth Agored, Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban

Paul yw cydlynydd y rhwydwaith Nodau Datblygu Cynaliadwy yn yr Alban, sefydliad sy'n edrych ar adeiladu momentwm a chreu gwell dealltwriaeth o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ledled yr Alban. Yn ei gyflwyniad, mae Paul yn egluro sut y cychwynnodd y rhwydwaith i fyny at y man lle maen nhw nawr. Yn ddiweddar anfonodd y rhwydwaith Nodau Datblygu Cynaliadwy friff at Lywodraeth y DG yn dangos pwysigrwydd safle a llais yr Alban o fewn yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol yn dilyn y gwaith pwysig ar adeiladu perthynas rhwng y rhwydwaith a Llywodraeth yr Alban. Mae Paul hefyd yn edrych ar y cyfleoedd sy'n bodoli yn awr i Gymru a'r Alban gydweithio rhwng cenhedloedd datganoledig ar brosiectau'n ymwneud â'r agenda Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Cyflwyniadau'r Uwchgynadleddau

Sut fedr adrodd ar lesiant yng Nghymru gynorthwyo'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol

View

Glyn Jones
Prif Ystadegydd, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Fel Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru, roedd Glyn Jones yn y safle orau i egluro sut mae Cymru wedi bod yn adrodd ar lesiant a sut mae hyn yn cynorthwyo'r Agenda Nodau Datblygu Cynaliadwy. Eglurodd Glyn Ddangosyddion Cenedlaethol Cymru a sut y maent wedi eu llunio i fesur ein cyfraniad i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; wedyn gwnaeth gymharu hyn â sut mae'r Dangosyddion Cenedlaethol yn ein helpu i fesur ein cyfraniad i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Gweithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

View

Yr Athro Calvin Jones
Prifysgol Caerdydd

Yn y cyflwyniad hwn archwilir y berthynas rhwng Addysg Uwch a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, yn cynnwys y cyfleoedd a'r rhwystrau sy'n codi wrth weithio mewn partneriaeth. Mae'r Athro Jones yn edrych ar yr heriau ariannol a strwythurol sy'n atal Systemau Addysg Uwch rhag chwarae rôl fwy arwyddocaol wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae hefyd yn pwysleisio'r cyfleoedd eang sy'n amgylchynu prifysgolion a'u hymchwil - sut fedr prifysgolion alinio'u hagendâu ymchwil i agendâu'r partneriaid y mae ganddynt y cyfle i gydweithio gyda nhw? Sut fedr partneriaid edrych ar yr ymchwil sy'n cael ei greu gan Systemau Addysg Uwch er mwyn cyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy?

Cyflwyniadau'r Uwchgynadleddau

Gweithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch wrth Gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

View

Dr Einir Young
Prifysgol Bangor

Mae'r Dr. Einir Young yn mabwysiadu ymagwedd sy'n ffocysu mwy ar fyfyrwyr wrth edrych ar sut y gall Systemau Addysg Uwch ystyried eu cyfraniad tuag at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gan adeiladu ar sylwadau'r Athro Calvin Jones, yn y cyflwyniad hwn mae'r Dr Einir Young yn edrych ar y rôl sydd gan Addysg Uwch i'w chwarae yn y dasg o addysgu myfyrwyr i fod yn angerddol am y materion y mae'r nodau'n ceisio eu datrys. Mae'n archwilio sut fedr parodrwydd myfyrwyr i ymgyfrannu yn y trafodaethau hyn greu cenhedlaeth sy'n fwy cysylltiedig, gyda 60% o fyfyrwyr yn dymuno cydweithio ac ymgyfrannu yn y gweithgareddau yn erbyn y materion hyn. Dywedodd Dr Young bod gan Sefydliadau Addysg Uwch y fath gyfoeth eang o arbenigedd fel bod yna bob amser rywun ar gael i gydweithio gyda nhw, ar lefel addysgol sy'n hygyrch i bawb.

Cadw ar y trywydd iawn tuag at 2030: Heriau a chamau gweithredu ar gyfer Cymdeithas Sifil a Llywodraeth yng Nghymru

View

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, cadarnhaodd Sophie Howe yn ei chyflwyniad y neges na ddylem golli golwg o'r darlun mwy; mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yno i gyflawni gwell byd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a rhaid i ni weithredu nawr i'w cyflawni. Gan bwysleisio ein bod ni wedi teithio hanner y ffordd o lansiad Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig tuag at y dyddiad cau yn 2030, anogodd Sophie'r cynrychiolwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat ac addysg uwch, ac edrych ar yr hyn fedrwn ni ei gyflawni gyda'n gilydd.

Cyflwyniadau'r Uwchgynadleddau

Dyfodol Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

John Gallanders
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam

Fel Prif Swyddog Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam, siaradodd John yn angerddol yn ei araith i gloi'r gynhadledd am y modd yr ydym yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu â phobl - yn arbennig y rhai hynny yr ydym yn eu labelu fel rhai anodd eu cyrraedd, ond nad ydynt felly mewn gwirionedd, petaem ni ond yn ail-feddwl am y modd yr ydym yn ymgysylltu ar lawr gwlad yn ein cymunedau. Gan ddefnyddio'r boblogaeth sy'n heneiddio a thechnoleg fel enghraifft, lle bydd gennym fwy o bobl yn defnyddio ein gwasanaethau nag sy'n cyfrannu at yr economi, heriodd John y trydydd sector i beidio casglu data fel tystiolaeth o effaith, ond fel offeryn rheoli i gynllunio ar gyfer y cymunedau hyn. Nid yw galwadau am grantiau ym mis Ionawr fel canlyniad i lithriadau yng nghyllid cyrff cyhoeddus yn helpu'r diwylliant tymor byr hwn. Gorffennodd John ei gyflwyniad gyda galwad ar i bob un ddychwelyd at onestrwydd a thryloywder - gan ddysgu o'n methiannau a rhannu'r dysgu hwn gydag eraill i'w hatal rhag ailadrodd yr un camgymeriadau.

Ken Perry
Cyfarwyddwr Do Well

Fel un sy'n hyrwyddo newid sy'n cael ei arwain gan bobl a gwaith sy'n cael ei gyflawni ar raddfa system gyfan, gwnaeth Ken atgoffa cynrychiolwyr bod newid hirdymor yn anniben. Ni ellir mynd i'r afael ag ef yn unig fel her i reolwyr ac mae'n rhaid i ni dderbyn hyn. Hyrwyddodd John yr angen am fudiad cymdeithasol sy'n cynnwys y pen (data a thystiolaeth) y galon (yr emosiwn a'r angerdd) a'r dwylo (y gallu i gyflawni pethau). Gorffennodd Ken ei gyflwyniad drwy fyfyrio ar yr angen i weithio ar draws ffiniau, gan archwilio'r cymwyseddau allweddol ar gyfer pob sector – mae gan y sector cyhoeddus y gallu i gasglu sgiliau a thrin tystiolaeth; mae'r trydydd sector yn dda gyda phobl ac emosiynau a'r sector preifat yn medru cyflawni pethau.

Beth Mwy Sydd Arnom Ei Angen I Ddwysáu Ein Hymdrechion Tuag At Y Nodau Datblygu Cynaliadwy A'r Nodau Llesiant?

Heriau a wynebir wrth wneud cynnydd tuag at y nodau datblygu cynaliadwy

"Angen dolen gref rhwng y Nodau Llesiant a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy: 17=7byd-eang/lleol

"Sut rydych chi'n gwneud y Nodau Datblygu Cynaliadwy'n rhan annatod o'ch sefydliad? Strategaeth, cynllun, proses, dydd i ddydd"

Rhannodd y cynrychiolwyr lawer enghraifft o waith y maent wedi ymgyfrannu ynddo sy'n cynorthwyo'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Roedd yr enghreifftiau hyn yn amrywio o waith ar lefel lleol i brosiectau sy'n cysylltu ar y raddfa ryngwladol. Roedd cwmpas y prosiectau hyn yn cwmpasu pob agwedd o lesiant ac roedd yna rai enghreifftiau cyffrous yn mynd i'r afael ag amryfal fanteision ar draws llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Fodd bynnag, mae Cymru'n wynebu heriau pan fydd yn gweithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n berthnasol i ymgysylltu ac ysbrydoli pobl, cymunedau a sefydliadau, yn cynnwys busnesau yng Nghymru wrth weithredu ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r nodau llesiant.

Amlygwyd cymhlethdod canfyddedig y 17 Nod Datblygu Cynaliadwy 'byd-eang' a sut y maent yn berthnasol i saith nod llesiant Cymru a gweithredu lleol fel problem allweddol. Mae'r darlun cymhleth hwn yn ei gwneud yn anodd datblygu naratif sy'n gwau'r agenda byd-eang i'r hyn sy'n bwysig i bobl ar lefel leol. Mae angen ymagwedd amlsector tuag at dorri drwy'r cymhlethdod hwn i sicrhau bod yr amrywiaeth a'r rhyngweithio rhwng y Nodau, a haenau gwahanol lywodraethu'n cael eu deall yn llwyr a'r cyfleoedd yn cael eu croesawu. Fodd bynnag, teimlodd cynrychiolwyr nad oedd y modelau partneriaeth

> “Sut rydyn ni’n herio canfyddiad bod elw a’r Nodau Datblygu Cynaliadwy’n cau ei gilydd allan?”

presennol yng Nghymru, yn effeithiol ar gyfer hybu’r Nodau Datblygu Cynaliadwy nac ar gyfer ennyn ymgysylltiad yr holl sefydliadau fel sy’n ofynnol.

Mae dwyn busnes a’r sector cyhoeddus ehangach i fwrdd y Nodau Datblygu Cynaliadwy’n hanfodol, ond heb naratif clir, mae’n anodd gwneud yr achos busnes dros y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn y sector cyhoeddus na dros amgylchedd corfforaethol y sector preifat sy’n brwydro’n erbyn materion tymor byr megis BREXIT a chaledi. Mae’r cyd-destun hwn yn ei gwneud yn anodd darganfod adnoddau ar gyfer gweithredu, cydlynu a rhwydweithiau y teimlodd pobl fod eu hangen i ddwysáu ymdrechion ar gyfer symud y Nodau Datblygu Cynaliadwy rhagddynt.

Mae’r seilwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr hyn y mae pobl yn ei wneud, yr arfer da sy’n bodoli, a datblygu partneriaethau ar gyfer gweithredu, ar goll yng Nghymru. Mae gan Gymru stori bwerus i’w rhannu am ei hymateb i her Agenda 2030, ond mae’n ddiffygiol yn y seilwaith a’r naratif i’w hadrodd, yng Nghymru ei hunan ac i gynulleidfaoedd mewn cenhedloedd eraill.

Sut fedrwn ni ddwysau ein hymdrechion ar gyfer gwneud cynnydd tuag at y nodau datblygu cynaliadwy?

> "Yng Nghymru cysylltu'r cyfathrebu am yr hyn yr ydym yn ei wneud"

Mae'r Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol yn gyfle i uno pobl i weithio ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Nodau Llesiant. Y brif neges oddi wrth gynrychiolwyr yn yr Uwchgynadleddau oedd yr angen i ddatblygu ymagwedd Gymreig unigryw tuag at y modd yr ydym yn ymgysylltu, yn ffurfiol ac anffurfiol gyda phobl, cymunedau ar draws gwahanol sectorau i greu mudiad Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn hollbwysig ar gyfer grymuso pobl a chymunedau i weithredu.

Mae yna alwad ar Gymru i dyfu rhwydweithiau a datblygu seilwaith effeithiol a llwyfannau digidol, yn debyg i Rwydwaith Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Alban, sy'n hwyluso cyfnewid gwybodaeth a thrafodaeth rhwng cydweithwyr. Byddai seilwaith agored o'r fath, hawdd cael mynediad iddo, yn caniatáu i Gymru gyfathrebu'n fwy effeithiol am yr hyn yr ydym yn ei wneud a hwyluso gweithio ar y cyd ar draws y sectorau.



> “Strwythur Cymdeithas Sifil fel yn yr Alban i gynorthwyo fforwm Datblygu Cynaliadwy ffurfiol.”

Mae cyfleoedd i rannu gwybodaeth mewn dull sy’n hawdd a syml yn garreg sylfaen bwysig ar gyfer grymuso unigolion a’r cyhoedd yn gyffredinol. Mae grymuso pobl a chymunedau’n golygu creu amgylchedd cyfranogol agored sy’n gwerthfawrogi cyfathrebu o’r gwaelod i fyny ac sy’n cyrraedd grwpiau nad ydynt fel arfer yn ymddiddori yn y prosiectau ar yr agenda hwn. Gallai cyfoethogi arweinyddiaeth gymunedol wrth gyflawni’r Nodau Datblygu Cynaliadwy helpu i gysylltu pobl leol a’u gweithrediadau â’r agenda byd-eang. Bydd gwella dealltwriaeth a sgiliau ymgysylltu a dulliau cyfranogol yn y sector cyhoeddus hefyd yn cynyddu’r cyfleoedd i rymuso pobl.

Mae pobl hefyd yn cael eu grymuso pan fyddant yn cael cydnabyddiaeth a gwobr am eu gwaith drwy gynlluniau megis y Gwobrau Busnes Cyfrifol a’r Gwobrau Cymru Gynaliadwy. Dylid archwilio dulliau o ehangu cydnabyddiaeth a gwobrwyo.

> “Grymuso – o’r gwaelod i fyny nid o’r brig i lawr”

Mae adnodd a chydnerthedd pobl ifanc yn cyflwyno cyfle gwirioneddol. Mae ennyn ymgysylltiad myfyrwyr a phobl ifanc mewn gwirfoddoli drwy’r Bagloriaeth Cymreig a chynlluniau eraill nid yn unig yn creu cyfle i weithredu o amgylch y Nodau Datblygu Cynaliadwy ond hefyd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc ac ymrwymiad i’r Nodau Datblygu Cynaliadwy mewn dull ymarferol. Mae’r cwricwlwm newydd Cymreig hefyd yn cael ei weld fel cyfle. Gyda’i ffocws ar adlewyrchu anghenion ehangach cenedlaethol a chymdeithasol, bydd pobl ifanc yn dysgu sut i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a’r byd. Mae ysgolion sy’n arloesi’r cwricwlwm newydd megis Ysgol Gynradd Millbrook yng Nghasnewydd yn dangos yr effaith ar fyfywrwyr sy’n eu galluogi i wneud y Nodau Datblygu Cynaliadwy’n rhan greiddiol o’u cwricwlwm.

#GlobalWelsh

Cyfrifir sgwrs y ‘Gymru a Garem’ a drefnwyd gan Cynnal Cymru yn 2014 fel cam llwyddiannus tuag ysbrydoli nifer mawr o randdeiliaid a phobl ar lawr gwlad. Gellid defnyddio ymgyrch arall y ‘Gymru a Garem’ i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad - wedi ei chefnogi gan naratif clir sy’n gwreiddio’r Nodau Datblygu Cynaliadwy mewn materion a phrydern lleol, ac sy’n amlygu cyfleoedd a gyflwynir drwy weithredu ar y cyd. Nid yw Cymru’n gweithredu ar ei phen ei hunan, felly yn ogystal â chreu cyfleoedd i ddysgu oddi wrth ein gilydd yng Nghymru – tynnodd y cynrychiolwyr sylw at y cyfle i ddysgu a rhannu gyda gwledydd eraill. Mae’r Nodau Datblygu Cynaliadwy’n darparu iaith gyffredin ar gyfer cynnal sgwrs gyda gwledydd eraill, gan ‘ddwyn y byd i Gymru a Chymru i’r Byd’.

Beth Nesa?

Yn ogystal â darparu cyfraniad Cymreig i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DG o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu Adolygiad ychwanegol i ddangos Stori Nodau Datblygu Cynaliadwy Cymru ei hunan a arweinodd at y Ddeddf LlesiantCenedlaethau'r Dyfodol a'r nodau llesiant ac ymdrechion i weithredu'r Ddeddf. Bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol i weithredu fel seinfwrdd a chasglu mewnbwn ar gyfer y ddau adroddiad hyn, a fydd yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd ym mis Gorffennaf.

Mae Gweinidog Cymru dros Gysylltiadau Rhyngwladol a'r iaith Gymraeg yn annog pobl Cymru i ymgysylltu a helpu yn natblygiad strategaeth newydd ar gysylltiadau rhyngwladol. Bydd Strategaeth Ryngwladol Cymru'n cael ei seilio ar set glir o werthoedd a fydd yn helpu i gyflwyno wyneb Cymru'n rhyngwladol – yn cynnwys ymrwymiad i gynaliadwyedd a chenedlaethau'r dyfodol, hyrwyddiad egwyddorion Gwaith Teg a chred sylfaenol yn y ffaith y byddwn yn cyflawni mwy i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf ein hoes: technoleg ddigidol, mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, wynebu heriau amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd, drwy weithio gyda'n gilydd ar draws ffiniau tiriogaethol.

Mae Comisiynydd cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi ymrwymo i hybu Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, fel yr unig wlad yn y byd i ddeddfwriaethu ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Comisiynydd yn parhau i dynnu sylw at yr enghreifftiau da ac yn amlygu cyfraniadau sefydliadau, cyrff cyhoeddus ac unigolion mewn gwahanol ddigwyddiadau rhyngwladol yn cynnwys yn ddiweddar yn Uwchgynhadledd Llywodraethau'r Byd. Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru'n lansio porth ar-lein o astudiaethau achos rhyngwladol ac yn annog yn frwdfrydig sefydliadau rhyngwladol i rannu eu harfer da a'u storïau gyda ni. Yn cydredeg â hyn, bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru'n casglu storïau o bob rhan o Gymru y gallwn eu rhannu gyda'n partneriaid. Bydd eu gwaith ar ddatblygu Diogelwyr Taith ar y Nodau Llesiant Cenedlaethol yn manteisio ar nifer o enghreifftiau rhyngwladol. Bydd y Comisiynydd yn gweithio hefyd gyda Gweinidog Cymru Dros Gysylltiadau Rhyngwladol i ddatblygu strategaeth Ryngwladol,

Cydweithio dros Agenda 2030

Gweithiodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'i gilydd i drefnu Uwchgynadleddau Nodau Datblygu Cynaliadwy gyda phartneriaid eraill megis Prifysgol Caerdydd. Gwnaeth rhanddeiliaid ymgyfrannu mewn cyfarfod cwmpasu cyn i'r Uwchgynadleddau gychwyn – i weld beth oedd y materion yr oedd angen i'r Uwchgynadleddau fynd i'r afael â hwynt. Roedd yn braf gweld nid yn unig hen ffrindiau yn yr Uwchgynadleddau ond llawer o wynebau nad oeddem wedi eu gweld cyn hyn – o ystod o sectorau, felly llwyddasom i gael persbectifau gwahanol ac atebion integredig i'r heriau sy'n wynebu gweithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

a manteisio ar brofiad y Comisiynydd o weithio gyda gwahanol sefydliadau rhyngwladol, yma yng Nghymru a thramor.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn dangos drwy gyfrwng ei gwefan, y berthynas rhwng Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol i helpu cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall y cysylltiadau. Bydd y Comisiynydd hefyd yn mynychu'r Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel yn y Cenhedloedd Unedig ym mis Gorffennaf, i ddangos cyfraniad Cymru i'r agenda rhyngwladol.

Mae Hub Cymru Africa'n trefnu Uwchgynhadledd Datblygu Rhyngwladol Cymru ar ddydd Iau 2 Mai 2019. Bwriad y digwyddiad yw dwyn at ei gilydd gymuned datblygu rhyngwladol fywiog ac amrywiol Cymru, am ddiwrnod o ddathlu, dysgu a thrafodaeth ar themâu rhyngwladol. Caiff y gynhadledd hon ei dilyn gan dderbyniad diodydd o dan nawdd Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru lle bydd Prif Swyddog Gweithredu newydd Oxfam - Dr Dhananjayan Sriskandarajah yn brif siaradwr. Cliciwch yma i gofrestru ar gyfer y digwyddiad.

Mae Cymru'n dal i ymgysylltu â gwladwriaethau is-genedl drwy ei chyfranogiad brwdfrydig yn Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (NRG4SD).

Mae pobl yng ngogledd Cymru wedi ymrwymo i gysylltu ar draws y rhanbarth drwy weithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac â'r saith nod llesiant.

Dros yr haf maen nhw'n cynllunio cynhadledd gyda'r @2025movement (mudiad â chenhadaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y gellid eu hosgoi ar draws y rhanbarth erbyn 2025) i edrych i weld sut y gallant gysylltu a sbarduno newid a gweithredu o gwmpas y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Os gwelwch yn dda cysylltwch â Helen Ball neu Nina Ruddle (07809 538927) i ddysgu mwy a dilyn y dudalen testun i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a chynadleddau sydd i ddod.

Mae Busnes yn y Gymuned (BITC) yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru i fapio a datblygu fframwaith traws-sector (cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat) ar gyfer cyflawni'r Nodau Llesiant. Os ydyw busnesau neu sefydliadau'n dymuno cyfrannu at y prosiect hwn, dylent gysylltu â matt.appleby@bitc.org.uk

Gall busnesau ddefnyddio 'Responsible Business Tracker' y BITC i olrhain cynnydd yn erbyn Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig a Map Busnes Cyfrifol y BITC. Mae'r 'Tracker' yn cynnig dadansoddiad o'r bylchau, meincnodi a'r cyfle i gael cydnabyddiaeth. Bydd meincnodi'n eich galluogi i weld sut mae eich cwmni'n cymharu â'r sector ar gyfartaledd ac â'r arweinydd sector.

Mae BITC Cymru yn lansio ei ymrwymaid 'Waste to Wealth' yng Nghymru ar 13 Mawrth – mae'r ymrwymiad yn gofyn i fusnesau:

1	Osod targedau i wella cynhyrchedd adnoddau sy'n allweddol i fusnes
2	Weithio ar y cyd i ddyblu cynhyrchiant adnoddau'r genedl a lleihau gwastraff y gellir ei osgoi erbyn 2030
3	Ail-ddylunio sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio mewn nwyddau gwasanaethau a gweithredu
4	Gydweithio ar draws sefydliadau, cadwyni gwerth a sectorau
5	Adrodd ar gynnydd yn flynyddol a rhannu dysgu a chanlyniadaus

Mae gan Grŵp Addysg Uwch Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (HEFGG) gynrychiolwyr o bob un o wyth Prifysgol Cymru. Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth neu fanylion am gynrychiolydd eich sefydliad, os gwelwch yn dda cysylltwch â Chadeirydd y grŵp Dr Einir Young, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'r grŵp Addysg Uwch - Grŵp Cenedlaethau'r Dyfodol Addysg Uwch Cymru (HEFGG) yn cydweithio'n fyd-eang drwy Ganolfan Arbenigedd Rhanbarthol Cymru(RCE) (y ganolfan ranbarthol ar gyfer arbenigedd ar Gynaliadwyedd a Llesiant cenedlaethau'r dyfodol). Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y fenter gyffrous hon a'i chylchoedd diddordeb ar: www.rce.cymru.

Ym mis Gorffennaf mae'r Cylch Diddordeb 'Addysgu a Dysgu'a gydlynir gan Dr Carolyn Hayles (Met Caerdydd), gyda chymorth Dr Gwenith Hughes (Bangor) yn trefnu Pedwaredd Gynhadledd Cynaliadwyedd mewn Addysg Uwch, a noddir gan UWTSD ar 3-4ydd Gorffennaf 2019 yng Nghampws Glannau Bae Abertawe. Caiff ei ragflaenu gan ddigwyddiad gwahoddiad yn unig i'r Canolfannau Arbenigedd Rhanbarthol seiliedig yn y DG ar 2-3ydd Gorffennaf 2019. Gan ein bod yn gorfod dysgu fwyfwy sut i fyw gydag adnoddau cyfyngedig mae croeso i unrhyw un sy'n teimlo bod ein hamcanion yn ffitio mewn i'w swydd ddyddiol i ymuno â ni.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cadwch Gymru'n Daclus
Amgueddfa Cymru-National Museum Wales	Cyngor Sir Fynwy
Arup	Mott MacDonald
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam	Cyfoeth Naturiol Cymru
Atkins	Nature 2 Nurture / Foe Cymru
Balfour Beatty	NSPCC Cymru/ Wales
Prifysgol Bangor	Oxfam Cymru
Comisiwn Bevan	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Y Gronfa Loteri Fawr	Plan-It Eco
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	PrimeConduct Ltd
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr d/o Tîm Cymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	BGC Torfaen
Busnes yn y Gymuned	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Busnes Cymru	RenewableUK Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Restorative Change
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.	Riversimple Movement Ltd
Bws Caerdydd	RSPB Cymru
Cyngor Caerdydd	Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban
Prifysgol Caerdydd	Maint Cymru
Cyngor Sir Ceredigion	Cymru Gynaliadwy a SUSSED Cymru
Cyngor ar Bopeth Cymru	Cyngor Abertawe
Cyngor Gwynedd Council	Cyngor Abertawe/BGC Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion County Council	Prifysgol Abertawe

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru / Churches Together in Wales	Cartrefi Cymunedol Tai Calon
Adran Datblygu Rhyngwladol	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Do Well	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
DTA Wales - Renew Wales	Trafnidiaeth Cymru
Egnida Limited	TYF
Eversheds Sutherland	UpRising
Masnach Deg Cymru	Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre
Family Housing Association	Swyddfa Archwilio Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	Datrysiadau Cymunedol Walsingham Support
Glandŵr Cymru - Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Prifysgol Glyndŵr	Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Groundwork Cymru	Llywodraeth Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru	CLILC
Hub Cymru Africa	WPD Associates Security Consultancy Specialist International
IIER	WWF Cymru
	Yellow Sub Geo Ltd

Gallery of SDGs Resources

Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig
un.org

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig
un.org

Llwyfan Gwybodaeth Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig
sustainabledevelopment.un.org

Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y Cenhedloedd Unedig
sustainabledevelopment.un.org
un.org
gov.uk

'Mobile Application' (ap ar gyfer ffôn clyfar/llechen etc.) Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig
SDGsinaction.com

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:
futuregenerations.wales/cy
futuregenerations.wales

Llesiant Cymru / Well-Being of Wales:
gov.wales

Hub Cymru Africa
hubcymruafrica.cymru/cy
hubcymru.org

Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban
scvo.org.uk

Prifysgol Caerdydd
cardiff.ac.uk/cy
cardiff.ac.uk

Prifysgol Bangor
bangor.ac.uk/cy
bangor.ac.uk

Prifysgol Wrecsam Glyndŵr
glyndwr.ac.uk/cy
glyndwr.ac.uk

Ystadegau Cymru
gov.wales/cy
gov.wales

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru
gov.wales/cy
gov.wales

Canolfan Materion Rhyngwladol y DG
www.gov.uk

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
wcia.org.uk

Rhwydwaith Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Alban
globalgoals.scot

Os oes gennych unrhyw broblem wrth wylio'r cyflwyniadau cysylltwch â'r swyddfa.